**RHAGLEN GRANT CYFALAF GOFAL PLANT A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR**

**CYNLLUN GRANTIAU CYFALAF BACH**

# CANLLAW I YMGEISWYR

## 1. Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Yn dilyn cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru, mae CBS Rhondda Cynon Taf wedi derbyn cyllid ar gyfer Cynllun Grantiau Cyfalaf Bach. Mae'r cyllid yma yn golygu bod modd cefnogi lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar sy'n gweithredu yn Rhondda Cynon Taf.

Rydyn ni'n gwahodd ceisiadau grant o leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar sy'n dymuno ymgymryd â gwaith cyfalaf hanfodol neu sydd eisiau prynu offer cyfalaf, er mwyn bod modd iddyn nhw:

- cryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- cynyddu nifer y lleoedd Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg a/neu Ddysgu Sylfaen y maen nhw'n eu cynnig;
- gwella ansawdd y cyfleusterau maen nhw'n eu cynnig i blant sy'n derbyn y Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg a/neu Ddysgu Sylfaen.

Mae'r uchafswm o gyllid y mae'n bosib i un lleoliad gofal plant neu flynyddoedd cynnar wneud cais amdano mewn unrhyw flwyddyn ariannol benodol wedi ei amlinellu isod:

| | |
|---|---|
| Gwarchodwyr plant | £10,000 |
| Darparwyr gofal plant wedi cofrestru ar gyfer 15 neu lai o blant | £10,000 |
| Lleoliadau gofal plant sydd wedi'u cofrestru ar gyfer 16 i 29 o leoedd | £15,000 |
| Darparwyr gofal plant sydd wedi'u cofrestru ar gyfer 30 neu fwy o leoedd | £20,000 |

## 2. Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais, mae <u>rhaid</u> i'r lleoliad gofal plant neu flynyddoedd cynnar fod:

- Yn Rhondda Cynon Taf
- Wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), neu yn achos lleoliad newydd, fod yn gallu darparu ymrwymiad ysgrifenedig y bydd yn cofrestru gydag AGC cyn gynted â phosibl
- Yn barod i ymrwymo i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant drwy raglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru am o leiaf bum mlynedd o ddyddiad talu'r grant

- Cydnabod y buddsoddiad y mae wedi'i dderbyn mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo a roddwyd i rieni
- Cytuno i gael ei rwymo gan delerau ac amodau'r grant.

Yn ogystal â hyn, mae modd ystyried yr amodau canlynol, yn enwedig os oes gormod o geisiadau am y grant wedi dod i law:

- Ymrwymiad i ddarparu gofal plant diwrnod llawn, yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol
- Yn aelod o sefydliad ymbarél gofal plant.

## 3. Beth mae modd ei ariannu?

Mae cyllid ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf yn unig, h.y gwaith sy'n cynyddu gwerth eiddo neu offer sydd â gwerth ailwerthu.

Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i geisiadau cyllido a fyddai'n golygu bod modd i leoliadau:

- Gweithredu argymhellion AGC
- Cydymffurfio â gofynion Iechyd a Diogelwch
- Croesawu plant ag anghenion corfforol neu ddysgu ychwanegol.

Mae enghreifftiau o wariant cymwys wedi'u cynnwys yn y tabl isod:

| Gwariant Cymwys | Ar gael i warchodwyr plant | Ar gael i leoliadau |
|---|---|---|
| Addasiadau i'r lleoliad i wella mynediad, yn enwedig i blant ag anghenion corfforol penodol. | Ydy | Ydy |
| Offer / dodrefn pwrpasol a fydd yn galluogi darparwr i groesawu plentyn ag anghenion corfforol neu ddysgu ychwanegol. | Ydy | Ydy |
| Gwella cyfleusterau awyr agored y lleoliad, er mwyn sicrhau bod gan blant fynediad i amgylchedd diogel i chwarae a dysgu ynddo ym mhob tywydd. | Ydy | Ydy |
| Amnewid offer neu ddodrefn sydd wedi'u difrodi, sy'n anniogel neu sy wedi'u treulio a allai o bosibl beri risg i iechyd a diogelwch. | Ydy | Ydy |
| Offer TG at ddefnydd y lleoliad yn unig, ar yr amod bod modd dangos yn glir bod angen hyn er mwyn darparu lleoedd Cynnig Gofal Plant, e.e. cwblhau hawliadau. Mae modd i hyn gynnwys gliniaduron, argraffwyr, llechi gwerth hyd at £500. | Ydy | Ydy |
| Offer/addasiadau i sicrhau bod modd i wasanaethau weithredu mewn ffordd a fydd un lleihau lledaeniad heintiau e.e. cyfleusterau golchi dwylo ychwanegol, gwelliannau i ardaloedd mewnol i gynyddu awyru, paredau mewn ystafelloedd a chyfleusterau storio. | Ydy | Ydy |
| Gwella effeithlonrwydd ynni lleoliad i leihau costau ynni e.e. gosod paneli solar | Ydy | Ydy |
| Ailosod/atgyweirio gosodiadau a ffitiadau fel toiledau, cyfleusterau cegin, ffenestri, drysau, ac ati. | Nac ydy | Ydy |
| Gwaith adnewyddu cyffredinol, gan gynnwys paentio, ailosod carpedi, ac ati. | Nac ydy | Ydy |

**Nodwch:**

- Rhaid i'r holl waith gael ei gwblhau gan gontractwyr ag enw da, ac yn unol â rheoliadau cynllunio ac adeiladu. Rhaid i gontractwyr feddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus priodol a Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch priodol. Lle bo hynny'n berthnasol, rhaid iddyn nnhw hefyd fod yn aelod o'r Cynllun Person Cymwys sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y llywodraeth. Rhaid i gontractwyr lenwi holiadur wrth wneud cais er mwyn cadarnhau eu bod yn bodloni'r gofynion yma.
- Os yw'r lleoliad gofal plant wedi'i leoli ar safle RhCT (e.e. ysgol, canolfan cymuned), rhaid cwblhau'r holl waith o dan gyfarwyddyd adran berthnasol y Cyngor.

## 4. Beth does dim modd ei ariannu?

Nid yw'r rhestr isod, yn hollgynhwysol, yn nodi'r mathau o offer a gwariant nad ydynt yn dod o fewn y meini prawf cyllido.

- Unrhyw wariant sy'n ymwneud â'r Prosiect yr aethpwyd iddo am waith a wnaed eisoes, ymrwymiad i gontractau (gan gynnwys taliadau i lawr), neu offer/deunyddiau gwaith sydd wedi'u prynu neu eu harchebu cyn dyddiad y Llythyr Cynnig Grant;
- Cerbydau, fel bysiau mini neu geir;
- Unrhyw fath o aerdymheru uned/system;
- Prynu teganau, llyfrau, offer chwarae plastig ar gyfer tu allan, dillad a nwyddau traul, pethau fel papur a deunyddiau glanhau;
- Glaswellt artiffisial;
- Eitemau newydd sbon sydd eu hangen yn rhan o drefniadau sefydlu cychwynol y lleoliad gofal plant;
- Unrhyw gynhwysydd sefydlog allanol mawr a ddefnyddir ar gyfer storio, fel cynwysyddion llongau;
- Costau staff, fel cyflogau, hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth;
- Costau gosod gofal plant, fel biliau cyfleustodau, fel nwy, trydan, Wi-Fi a chyfraddau busnes;
- Costau yswiriant, e.e. yswiriant adeiladau, yswiriant atebolrwydd cyflogwr, ac ati.

## 5. Proses Gwneud Cais ac Asesu

Bydd pob cais sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau isod yn cael ei drafod, a bydd penderfyniadau i ddyfarnu cyllid yn cael ei wneud mewn cyfarfod Panel Grant pwrpasol.

| **Dyddiad Olaf Gwneud Cais** |
|---|
| **Dydd Gwener 18 Hydref 2024** |

Bydd pob cais yn cael ei asesu yn gyson yn erbyn y meini prawf cymhwysedd sydd eisoes wedi cael eu nodi ynghyd â'r blaenoriaethau cyllido er mwyn sicrhau bod y cyllid cyfyngedig sydd ar gael yn cael ei ddyrannu i'r ceisiadau hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ddarparu gofal plant yn RhCT.

## 6. Y Broses Dalu

Bydd y taliad yn cael ei wneud trwy drosglwyddiad BACS i'r cyfrif banc busnes sydd wedi'i nodi yn y cais. Fel arfer, dim ond ar ddiwedd prosiect y bydd y taliad yn cael ei wneud, ar ôl derbyn ffurflen hawlio grant sydd wedi'i chwblhau gan yr ymgeisydd. Rhaid i'r ffurflen hawlio grant yma gynnwys:

- Anfoneb(au) gwreiddiol wedi'u heitemeiddio gan y cyflenw(y)r/contractw(y)r, i gynnwys dim ond y gwaith/offer hwnnw a oedd wedi cael ei gymeradwyo yn benodol yn y llythyr cynnig grant;
- Datganiadau banc i ddangos tystiolaeth bod taliad(au) yn cael ei/eu (g)wneud i'r cyflenw(y)r, contractw(y)r;
  Noder: Chewch chi ddim defnyddio cardiau credyd i dalu am nwyddau neu wasanaethau y mae arian grant wedi'i gymeradwyo ar eu cyfer;
- Y dogfennau perthnasol sy'n cadarnhau fod yr holl ofynion statudol, megis caniatâd cynllunio a rheoliadau adeiladu, wedi'u bodloni;
- Tystiolaeth ffotograffig bod gwaith wedi'i gwblhau a/neu fod offer wedi cyrraedd
- Crynodeb byr, yn amlinellu effaith gadarnhaol y grant ar ddarparu lleoedd gofal plant yn y lleoliad.